# PETER SMITH
# CLWB PÊL-DROED I BOBL ANABL, RCT TIGERS

Peter yw un o'r aelodau a sefydlodd Clwb RCT Tigers ac mae wedi bod yn drysorydd ers y diwrnod cyntaf. Mae hefyd yn hyfforddwr gwirfoddol ac yn rhoi o'i amser i gynnal sesiynau hyfforddi wythnosol a rheoli timau ar gyfer gemau a thwrnameintiau.
Mae Peter hefyd yn rheoli clwb cynilo ar gyfer rhieni ac yn trefnu achlysuron cymdeithasol yn rheolaidd ar gyfer y clwb. Mae'n rhoi oriau di-rif i'r clwb a Peter yw'r glud sy'n dal RCT Tigers at ei gilydd.

Mae gan lawer o'r aelodau iau anableddau dysgu, tra bo gan eraill anableddau corfforol. Mae'r clwb yn cynnig amgylchedd diogel er mwyn i'r plant ffynnu. Mae Peter wedi rhoi o'i amser dros y blynyddoedd i gyfoethogi bywydau plant anabl yn Rhondda Cynon Taf ac yn haeddu'r cydnabyddiaeth yma.




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## GORFFENNAF 2023